**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 28ain o Chwefror 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.**

**Presennol:** Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, Mr Roger Phillips (Clerc Tref) Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid) Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Geraint Price

Cyn y cyfarfod, fe wnaeth Mr Owain Gruffydd o Fenter Bro Dinefwr annerch y Cyngor ar y cais llwyddiannus am grant i ailddatblygu Neuadd y Sir, at ddefnydd y gymuned.

Fel arwydd o barch i'r diweddar Gyn-gynghorydd Colin Cooper, a fu'n Faer yn 1988-89, arhosodd pawb am funud o dawelwch.

**Materion yn ymwneud â'r Heddlu.**
Dywedodd y SCCH Roger Anthony y bu'n fis eithaf tawel, gydag ychydig ddigwyddiadau'n cael eu reportio. Canfuwyd siopleidr yn archfarchnad CK. Ymdriniwyd ag un achos o aflonyddu mewn Tŷ Tafarn.
Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ychydig bobl yn parcio'n amhriodol ar balmentydd. Byddai'r SCCH yn gosod rhybuddion ar y cerbydau.

**Cof 283 / Chwef / 18 Datganiadau o Fuddiant**
Datganodd y Cyng. Rebecca Butcher fuddiant yn yr eitem ar yr agenda ar ffurfio bae llwytho ar Deras Tywi, gan ei bod yn gweithio i'r busnes dan sylw.

**Cof 284 / Chwef / 18 Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Roedd yn trafod gyda Banc Lloyds ac Adran Priffyrdd CSG mewn perthynas â lleoli cyfleuster bancio symudol, a fydd ar gael am un awr ar ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae'n ymddangos bod gwerthiant tir sy'n eiddo i CSG yn mynd yn ei flaen.
Mae Gŵyl y Synhwyrau yn chwilio am Gadeirydd ac Ysgrifennydd newydd. Cynhelir eu CCA ar y 19eg o Fawrth.
Mae nifer y cwynion am faw cŵn ar gynnydd unwaith eto, ac mae CSG yn ymweld â'r Dref yn rheolaidd, mewn ymgais i ddod o hyd i'r troseddwyr sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn.
Bydd cyfarfod pellach yn cael ei gynnal rhwng penaethiaid yr ysgolion Cynradd a swyddogion CSG, mewn perthynas â mynediad i fynedfa Heol y Garreg Las i'r ysgolion.

**Cof 285 / Chwef / 18 Cofnodion Blaenorol**

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 24ain o Ionawr 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.
Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 14eg o Chwefror 2018, yn gofnod cywir.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher y 14eg o Chwefror 2018, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

**Cof 286 / Chwef / 18 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol**

Ynglŷn â Cof 269 / Chwef /18. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at Llinos Quelch, Pennaeth Cynllunio CSG, i ofyn am eglurhad p'un ai bod yn rhaid darparu lleoedd parcio gyda'r newid defnydd o eiddo, o ddefnydd masnachol i ddefnydd preswyl.

**Cof 287 / Chwef / 18 Gohebiaeth yn galw am ymateb**

1. Les James, Rheolwr Partneriaeth ac Ymgysylltu CSG – Ateb i lythyr y Cyngor mewn perthynas â lletya person yn Llandeilo. Dywedodd Mr James bod yna ymagwedd amlasiantaethol, mewn achosion o'r fath, a oedd yn dilyn canllawiau caeth y Llywodraeth. Nodwyd.
2. NALC, mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data sy'n dod i rym ym mis Mai 2018. Cytunwyd i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Gweithdrefnau, i archwilio prosesau'r Cyngor.

**Cof 288 / Chwef /18 Gohebiaeth er gwybodaeth**

1. Un Llais Cymru – Cylchlythyr mis Chwefror. Nodwyd.
2. Melanie Johns, Cadwch Gymru'n Daclus. Nodwyd.
3. Steve Kelshaw, y diweddaraf ar y teuluoedd o ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.
4. Sefydliad Aren Cymru, mewn perthynas â'r Daith dros Fywyd. Byddai'r Maer yn ystyried trefniadau addas.
5. Gill Davies, mewn perthynas â'r Byrddau Gwybodaeth i Dwristiaid. Cytunwyd byddai'r Cynghorwyr yn gwirfoddoli i lanhau Byrddau'r Dref.

**Cof 289 / Chwef / 18 Materion Ariannol**

1. **Cyfrifon i'w Talu**.

| | Net | TAW | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Hugh Gwynne (gwaredu gwastraff y Cyngor) (DD658) | £ 85.00 | £ 17.00 | £ 102.00* |

dd - debyd uniongyrchol # - siec * - bacs. Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu.
Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

**Cof 290 / Chwef / 18 Materion Ariannol Eraill**

Dywedodd y Swyddog Cyllid fod y tri swyddog wedi derbyn codiad cyflog o 1%, wedi'i ôl-ddyddio i 2017, fel y cytunwyd gan Ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol.

**Cof 291 / Chwef / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol**

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Cytunwyd byddai'n trafod cost gwresogi Neuadd y Sir yng nghyfarfod nesaf Is-grŵp Neuadd y Sir ar nos Fawrth y 6ed o Fawrth.

**Cof 292 / Chwef / 18 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau**

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Chwefror. Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r contractwyr, wedi i'r tendrau gael eu gwobrwyo, ar gyfer y gwaith canlynol ym Mharc Le Conquet, h.y. atgyweirio'r ffens o amgylch y Clwb Bowls, Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ac ailadeiladu wal y cwrt tenis.
Ar yr 20fed o Chwefror, aeth ef yng nghwmni'r Clerc a'r Swyddog Technegol i gwrdd â chontractwyr HAGS ym Mharc Le Conquet. Roedd disgwyl i'r gwaith i ailddatblygu'r Parc i gychwyn ar y 19eg o Fawrth.

**Cof 293 / Chwef / 18 Materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd**

LlCC mewn perthynas â chyfyngiadau ardal llwytho ar Deras Tywi. Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau gan fod y mater yn ymwneud ag ardal Dyffryn Cennen.

**Cof 294 / Chwef /18 Adroddiad y Maer**

Dywedodd y Maer fod y Dirprwy Faer, ynghyd â'r Cyng. Colin Jenkins a'r Cyng. Gordon Kilby, wedi mynychu noson gymdeithasol yn y Plough Inn ar nos Wener y 23ain o Chwefror. Roedd y Maer wedi mynychu dau o'r digwyddiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn, fel rhan o'r digwyddiadau Dathlu Dewi, sef darlith Dr Lyn Davies a chyngerdd Clive Harwood. Yn anffodus, fe fydd yn rhaid aildrefnu'r digwyddiadau eraill oherwydd y rhew a'r eira a'r tywydd oer.

**Cof 295/ Chwef / 18 Adroddiadau Eraill**

1.Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.

Gwnaethpwyd yr argymhellion canlynol:-

i) Bod Pendragon Fireworks yn cael eu bwcio ar yr 2il o Dachwedd, am bris o £4,500.
ii) Bod prisiau mynediad yn £4 i oedolion a £2 i blant.
iii) Bod dim rhaglen yn cael ei pharatoi.
iv) Bod y cynnig gan Pendragon i gael 10% yn ychwanegol o dân gwyllt am yr un pris o £4,500 yn cael ei dderbyn, ar yr amod fod yr arian yn cael ei dalu gyda'r archeb, erbyn y 1af o Ebrill 2018.

Cafodd yr argymhellion yma eu cario. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

2.Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y gyllideb goleuadau Nadolig yn cael ei chynyddu o £4,500 i £5,500. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace.
Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar yr 17eg o Ebrill am 6.00yh.

3.Adroddodd y Clerc am ei bresenoldeb yng nghyfarfod diwethaf SLCC. Dywedodd byddai angen i'r Cyngor i ystyried yr holl faterion yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cynnal ym Mharc Penlan a Pharc le Conquet, o safbwynt Iechyd a Diogelwch ac Yswiriant. Nodwyd.

**Gadawodd y Cyng. Dawn Wallace y siambr cyn trafod yr eitem nesaf ar yr Agenda.**

**Cof 296 / Chwef / 18 I dderbyn Enwebiadau ar gyfer Maer 2018-19**
Cynigodd y Cyng. Eifion Davies enw'r Cyng. Edward Thomas fel Maer Llandeilo ar gyfer y Flwyddyn 2018-19.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Edward Thomas yr enwebiad.

**Cof 297 / Chwef / 18 I dderbyn Enwebiadau ar gyfer Dirprwy Faer Llandeilo 2018-19**
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas enw'r Cyng. Owen James fel Dirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn 2018-19.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Owen James yr enwebiad.

**Cof 298 / Chwef / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.